Gwybodaeth Bwysig

# A oes gan eich busnes chi gynllun rhag ofn y byddai yna doriad trydan?

Paratowch at doriad trydan drwy gynnal **Asesiad o Gadernid Busnes** er mwyn deall anghenion penodol eich busnes chi pe bai'r pŵer yn pallu.

Dylid adolygu'r camau hyn yn ogystal â'r Asesiad o Gadernid Busnes.

**TORIAD TRYDAN? FFONIWCH 105**

SP Energy Networks



## Diogelwch

1. Gwnewch restr o'r holl gyfarpar y mae angen ei ddiffodd yn ystod toriad trydan a'i ailosod pan fydd y pŵer yn dod yn ôl.
2. Os bydd y pŵer yn diflannu, diffoddwch eich tanau trydan a'ch poptai i osgoi risg o dân pan fydd y pŵer yn dychwelyd.
3. Os byddwch chi'n defnyddio generaduron wrth gefn, rhaid i rywun sydd wedi'i awdurdodi wneud y gwaith gosod. Ar ôl eu gosod, trefnwch i brofi'r generaduron yn rheolaidd, ynghyd â sicrhau bod gennych chi danwydd wrth gefn.
4. Bydd bwydydd yn ddiogel am 4-6 awr yn yr oergell a 15-24 awr yn y rhewgell, ond taflwch unrhyw fwyd os yw'n ymddangos ei fod wedi dadmer.
5. Pan fyddwch chi'n defnyddio ffyrdd eraill o wresogi neu oleuo, defnyddiwch y rheini'n ddiogel a chofiwch am ddiogelwch rhag tân.

## Diogeledd

1. Gwnewch gopïau wrth gefn o gynnwys eich cyfrifiaduron yn rheolaidd, ac ystyriwch gadw copïau o ddogfennau pwysig mewn lle diogel neu oddi ar y safle. Profwch a chynlluniwch at yr effaith ar offer technegol fel cyfrifiaduron pan fydd y pŵer yn dod yn ôl.
2. Gofalwch nad yw tanciau tanwydd yn mynd yn gwbl wag, neu wefr y batris mewn cerbydau trydan yn cael ei ddefnyddio'n llwyr, gan fod modd i doriadau trydan effeithio ar orsafoedd petrol. Efallai y bydd modd i staff lenwi cerbydau mewn ardaloedd lle nad oes toriadau trydan.
3. Meddyliwch am drefniadau diogelwch eich lleoliad a sut gallai toriad trydan effeithio ar ddrysau, gatiau, cloeon, larymau tân a larymau diogelwch sy'n dibynnu ar drydan i weithio.
4. Gofalwch fod larymau ar y lleoliad yn cael eu cynnal a'u cadw, a bod ganddyn nhw fatris wrth gefn, gan gynnwys cysylltu â darparwyr systemau allanol, os yw hynny'n berthnasol, i sicrhau bod y llinellau ymateb yn gallu ymdopi os bydd toriad trydan.

## Lles

1. Adolygwch unrhyw asesiadau risg perthnasol ar gyfer eich busnes, sy'n dangos sut gallai toriad trydan effeithio ar y gallu i weithio'n ddiogel ac ar les y staff ar y safle.
2. Ystyriwch a all y staff weithio o leoliadau gwahanol pe bai toriad trydan, neu a allech chi newid yr oriau pan fyddwch chi'n gweithio.
3. Gwnewch yn siŵr bod digon o fflachlampau ar gael a bod y staff yn gwybod ble i ddod o hyd iddyn nhw.
4. Meddyliwch am sut gallai toriadau trydan effeithio ar bobl rydych chi'n gofalu amdanyn nhw, os yw hynny'n berthnasol i chi, rhag ofn y gallai toriad trydan achosi gofid a braw. Ystyriwch ymgynghori â sefydliadau allanol neu chwilio am adnoddau i gael rhagor o gymorth a/neu i wneud gwaith paratoi.
5. Darllenwch **bamffled 'Be Winter Ready' yr ENA** ar gyfer cartrefi gofal a lleoliadau preswyl sy'n rhoi cymorth ar gyfer byw. Helpwch y bobl yn y lleoliadau hyn i **fynd ar y Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth** er mwyn cael cymorth ychwanegol yn rhad ac am ddim pe bai toriad trydan.

## Cyfathrebu

1. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cael y wybodaeth ddiweddaraf yn ystod toriad trydan drwy ddefnyddio ffonau symudol neu drwy fynd i leoliad gwahanol. Gallwch hefyd fynd i'n gwefan am **doriadau trydan yn eich ardal chi**, neu **ffoniwch 105**
2. Os bydd toriadau trydan ledled Prydain yn effeithio arnoch chi, a'r rheini wedi'u cyflwyno gan National Grid ESO mewn argyfwng yn unig, ewch i **powercut105.com** i gael y wybodaeth ddiweddaraf.
3. Paratowch at sut i gyfathrebu â staff os bydd toriad trydan er mwyn iddyn nhw wybod beth sy'n digwydd.
4. Meddyliwch am sut i gysylltu â chwsmeriaid, os yw hynny'n berthnasol, i roi gwybod iddyn nhw sut mae toriadau trydan wedi effeithio ar y busnes.
5. Cysylltwch â chyflenwyr, gwerthwyr a phartneriaid pwysig eraill, a threfnwch gytundebau a gweithdrefnau gyda nhw, er mwyn gwybod beth i'w wneud pe bai toriad trydan.

Mae modd sicrhau bod eich manylion cyswllt gyda SP Energy Networks wedi'u diweddaru **fan hyn**.

You can view this leaflet in English **here**.